# Gwybodaeth ategol – beth i'w hanfon

Mae gwybodaeth ategol, a elwir hefyd yn ‘dystiolaeth bellach’, yn helpu ein gweithwyr iechyd proffesiynol i ddeall sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch chi.



Mae’n bwysig iawn anfon cymaint o wybodaeth â phosibl ar gychwyn y cais. Gwybodaeth sy'n ddefnyddiol i ni yw unrhyw beth sy'n benodol i chi a’ch cyflwr yn hytrach na gwybodaeth generig.

**Mae’r canllaw byr hwn yn esbonio pa fath o wybodaeth sy’n ddefnyddiol i ni.**

## Pethau allweddol i'w cofio:

- Mae unrhyw wybodaeth am sut mae eich cyflwr iechyd neu anabledd yn effeithio arnoch yn ddefnyddiol.
- Nid oes rhaid iddo fod yn feddygol yn unig – mae gwybodaeth gan y bob sy’n gwybod sut mae eich cyflwr iechyd yn effeithio arnoch chi, fek ffrundiaum aelodau teuku a gweithwyr cymorth, yn bwysig iawn hefyd.
- **Anfonwch wybodaeth neu ddogfennau sydd gennych ar gael i chi eisoes yn unig.**
- **Peidiwch â gofyn am unrhyw wybodaeth y bydd angen i chi efallai dalu ffi amdani, megis llythyr gan eich Meddyg Teulu**
- **Pediwich ag oedi** cyn anfon eich ffurflen yn ôl gan eich bod yn disgwyl am fwy o wybodaeth – anfonwch beth sydd gennych eisoes.
- Rhaid i chi gynnwys manylion cyswllt **pawb** sy’n ymwneud â'ch gofal ar eich taflen.
- Rhowch y rhain mewn trefn o bwy sy’n eich hadnabod orau. Nid oes rhaid iddynt fod yn weithwyr meddygol proffesiynol, gall fod yn unrhyw un sy’n deall eich cyflwr.
- Os bydd angen gwybodaeth ychwanegol arnom, efallai y byddwn yn cysylltu â'r rhai sydd wedi’u rhestru ar eich ffurflen.

Mae enghreifftiau o’r hyn sy’n ddefnyddiol i ni wedi’u rhestru isod. Rydym hefyd wedi rhestru gwybodaeth nad yw’n ddefnyddiol iawn fel tystiolaeth bellach.

Capita

| Gwybodaeth gallwch ei hanfon | Gwybodaeth nad oes angen i chi ei hanfon |
|---|---|
| • Rhestr presgripsiwn amlroddadwy cyfredol<br>• Llythyr neu ddyddiadur gofalwr<br>• Llythyrau rhyddhau o’r ysbyty neu glinig cleifion allanol am eich cyflwr neu ddiagnosis a thriniaeth.<br>• Adroddiadau am gynlluniau gofal/triniaeth gan weithwyr proffesiynol sydd wedi eich trin neu ofalu amdanoch, e.e.<br>  ○ Therapydd galwedigaethol<br>  ○ Ffisiotherapydd<br>  ○ Nyrs seiciatrig gymunedol (CPN)<br>  ○ Gweitiwr cymdeithasol<br>  ○ Tîm cymorth anableddau dysgu | • Cardiau neu lythyrau apwyntiad<br>• Llythyrau derbyn i'r ysbyty<br>• Taflenni ffeithiol am eich cyflwr<br>• Taflenni ffeithiol am feddyginiaeth rydych chi’n ei chymryd<br>• Gwybodaeth am brofion rydych chi’n mynd i'w cael<br>• Ticedi trên neu fws i apwyntiadau rydych chi wedi’u mynychu<br>• Cyfarwyddiadau neu fapiau i apwyntiadau rydych chi wedi’u mynychu<br>• Gwybodaeth rydych chi eisoes wedi’i hanfon at y DWP ar gyfer PIP. |

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y wybodaeth ategol, cysylltwch â ni.**

Cofiwch, **peidiwch â thalu** am unrhyw dystiolaeth meddygol. Os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnom, efallai y byddwn yn cysylltu â'r rhai sydd wedi'u rhestru ar eich ffurflen.